| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Taflen Gynllunio |
| Disgrifiad: | Taflen gynllunio sy'n annog dysgwyr i edrych ar y technegau y mae angen eu defnyddio wrth wneud cyflwyniad llwyddiannus |
| Blynyddoedd ysgol: | CA3 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Llafaredd: Siarad**<br>**Blwyddyn 8**<br>• ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio<br><br>**Ysgrifennu: Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*Ystyr, dibenion, darllenwyr<br>Bl7:<br>• cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith.<br><br>Bl8:<br>• wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben.<br><br>Bl9:<br>• cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol |
| Testun Dylan Thomas | Cysylltu â 'Poem in October' lle mae Dylan Thomas yn disgrifio taith gerdded drwy Dalacharn ar ei ben-blwydd yn 30 oed. |
| Adnoddau sydd eu hangen: | • Taflenni Gweithgaredd Didoli Cardiau<br>• Cyflwyniad PowerPoint 'Gwerthu Talacharn'<br>• Copi/recordiad o 'Poem in October' |
| Trefn addysgu a awgrymir: | • Trafod â'r dysgwyr beth, yn eu barn nhw, yw'r agweddau allweddol ar Dalacharn a fyddai'n helpu i werthu'r lle neu'n annog eraill i ymweld ag ef.<br>• Dangoswch ddelweddau o'r 'boathouse', y castell, aber yr afon, gwesty Browns ac ati a gofyn iddyn nhw ystyried gwahanol gynulleidfaoedd (rhaid bod gan bob un gysylltiad â Dylan Thomas).<br>• Mae'r dysgwyr yn gweithio mewn parau i lenwi'r grid cynllunio gan geisio dod o hyd i enghreifftiau o dechnegau perswadio i'w cynnwys yn eu cyflwyniad. |
| Gweithgareddau estyn: | • Cyn gwneud y cyflwyniad i'r dosbarth, gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau a gwrando a rhoi adborth adeiladol yn seiliedig ar y meini prawf llwyddiant sydd yn y cyflwyniad PowerPoint o ran sut mae gwella.<br>• Gellid defnyddio asesu gan gyfoedion gydag arweiniad ysgrifenedig. |

| | |
|---|---|
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | |